Asesiad o flaenoriaethau treftadaeth awdurdodau lleol a‘u anghenion cymorth

08/07/2021

See all updates

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno mewnwelediadau gan awdurdodau lleol er mwyn helpu i gyflawnni treftadaeth cydnerth a chyflwynno gwelliannau hirdymor i leoedd a chymunedau.

Atodiad	Maint
PDF Gweld Assessment of local authority heritage priorities and support needs as PDF(387.9 KB)	387.9 KB

Gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol

Rydym yn buddsoddi mewn prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol y DU.

Mae awdurdodau lleol yn rhanddeiliaid treftadaeth allweddol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am asedau treftadaeth ac am wireddu potensial treftadaeth ar lefydd. Mae hwn yn cynnwys y rôl bwysig sydd gan treftadaeth wrth gefnogi blaenoriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol lleol.

Mae’r awdurdodau lleol wedi chwarae rôl flaenllaw bwysig ar gyfer eu meysydd mewn ymateb i coronafirws (COVID-19). Ac maen nhw ar y blaen wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer adfer eu lleoedd o'r pandemig.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ledled y DU fel rhan o'n dull seiliedig ar le o dreftadaeth. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ein hardal leol a'r economi leol.

Yngl?n â'r adroddiad hwn

Roeddem am glywed mwy gan awdurdodau lleol wrth inni ystyried sut orau i ddarparu adnoddau a chefnogi ardaloedd lleol. Bydd hyn yn helpu i gyflawni treftadaeth gydnerth ac i gyflwynno gwelliannau hirdymor i leoedd a chymunedau. Gwnaethom gomisiynu Golant Innovation i gasglu mewnwelediadau gan awdurdodau lleol ledled y DU i helpu i lywio ein dull gweithredu.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau ariannol ac adnoddau sy'n codi o'r pandemig, ond hefyd y cyfle i dreftadaeth chwarae rhan amlwg mewn adferiad.

Mae'r ymchwil yn dangos y rôl bwysig y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi i dreftadaeth mewn cynlluniau adfer lleol. Mae hyn yn adlewyrchu ein blaenoriaethau wedi'u hail-lunio ar gyfer 2021-22 sy'n tynnu sylw at rôl treftadaeth wrth adeiladu yn ôl ar gyfer newid cadarnhaol.